


Gwella diagnosis a thriniaeth llyngyr gastroberfeddol mewn gwartheg

Cefndir

Mae tri ffermwr llaeth yng Ngheredigion yn cymryd rhan mewn prosiect EIP yng Nghymru sy'n ymchwilio i weld a oes angen adolygu triniaethau arferol ar gyfer llyngyr yn eu stoc llaeth ifanc oherwydd pryderon ynglŷn ag ymwrthedd i gyffuriau anthelmintig. Mae ffermwyr yn gweithio gydag Eurion Thomas o Techion UK Ltd, gyda mewnbwn technegol gan Filfeddygon Steffan, Milfeddygon Tysul a'r Athro Diana Williams o Brifysgol Lerpwl.

Cynnydd hyd yma



Cefndir systemau'r ffermydd

- Mae'r 3 fferm yn defnyddio systemau tebyg
- Buchesi llaeth yn lloea yn y gwanwyn
- Dibynnu ar borfa ar gyfer cynhyrchiant – tymhorau pori estynedig
- Rhoi cyn lleied â phosibl o borthiant ychwanegol
- Yr un peth yn gymwys i'r stoc ifanc – yr R1 (porwyr y tymor 1^{af}) ac R2 (porwyr yr 2^{il} dymor)
- Rhai grwpiau o stoc ifanc allan dros y gaeaf

Dechreuodd y prosiect ym mis Awst 2019. Anfonir samplau rheolaidd o ysgarthion cronrus o'r gwartheg ifanc at Filfeddygon Steffan i ddadansoddi'r cyfrif wyau ysgarthol (Faecal Egg Count: FEC) gan

ddefnyddio system FECPAK^{G2}. Mae'r graff o 2020 yn dangos gwahaniaeth mawr rhwng y ffermydd yn nhermau baich llyngyr y lloei R1. Yn benodol, roedd y baich parasitaidd yn is o lawer ar fferm 3 ac arweinodd hyn at leihad sylweddol mewn triniaethau anthelmintig, heb amharu ar y cynnydd mewn pwysau byw dyddiol. Mae wedi bod yn anodd newid ymddygiad ffermwyr o ran rhoi triniaethau rheolaidd, er iddynt dderbyn data i gefnogi'r penderfyniadau. Pryderon ynglŷn â llyngyr a'r perygl o ostertagiosis Math II sy'n rhannol gyfrifol am hyn.

Canlyniadau profion ymwrthedd /effeithiolrwydd

Cafodd Profion Lleihau FEC (FECRT) eu cynnal ar ddwy o'r tair fferm yn ystod dau dymor gwahanol ac mae'r tabl yn crynhoi'r canlyniadau. Y diffiniad o ymwrthedd yw bod y canlyniadau FECRT yn gostwng o dan 95% e.e. os yw'r driniaeth llyngyr yn gwbl effeithiol, rydym yn disgwyl i'r cyfrif wyau ostwng i 95% neu is. Y canrannau lliw coch yw'r rhai sy'n destun pryder o ran ymwrthedd.

Ar y ddwy fferm roedd effeithiolrwydd y grŵp macrocyclic lacton (Ivermectin a Moxidectin) yn isel, ac roedd benzimidazolau a levamisole yn gwbl effeithiol. Cafodd larfâu eu meithrin o samplau a gymerwyd cyn ac ar ôl triniaeth a chafodd rhywogaethau eu nodi gan ddefnyddio dilynianodi Nemabiome. Mae'r data cychwynnol yn awgrymu mai *Cooperia spp.* yn unig wnaeth oroesi'r driniaeth. Nid yw dadansoddiad cychwynnol o gynnydd pwysau byw dyddiol y grwpiau triniaeth yn dangos unrhyw wahaniaethau o ran perfformiad, fodd bynnag mae dadansoddiad mwy manwl yn cael ei gynnal ar hyn o o bryd.

Mae presenoldeb *Cooperia* ar ôl triniaeth yn codi nifer o gwestiynau. A yw'n bresennol oherwydd gwir ymwrthedd i 3ML neu oherwydd diffyg effeithlonrwydd llawn? A yw lefel y *Cooperia* sy'n goroesi yn effeithio ar berfformiad stoc? Y gobaith yw y bydd modd egluro'r materion hyn yn ystod 12 mis nesaf y prosiect.

Farm -	Farm 1		Farm 2	
Wormer (group)	% Reduction	Yr Tested	% Reduction	Yr Tested
BENZIMIDAZOLE Oral (1 BZ)	100%	2019	96%	2020
LEVAMISOLE Oral (2 LV)	98%	2020	98%	2019
IVERMECTIN Injectable (3ML) - 1	81%	2019	44%	2019
IVERMECTIN Injectable (3ML) - 2	62%	2020	57%	2020
IVERMECTIN Pour-On (3ML)	-		8%	2019
MOXIDECTIN Injectable (3ML)	-		86% (?)	2019
MOXIDECTIN Pour-On (3ML)	80%	2020	20%	2020